# Cofnodion Fforwm Mynediad Ysgolion Gwynedd

Addysg

**Dydd Llun, Mawrth 9fed 2026 am 9.30**
**Cyfarfod Microsoft Teams**

**Yn bresennol:** Alison Halliday, Debbie Jones, Owain Dewi Hughes, Ffion Griffith (cofnodi), Joanna Thomas, Rhian Parry Jones, Colette Owen, Aimee Jones, Dr Einir Thomas

**Ymddiheuriadau:** Ffion Edwards Ellis, Gwern ap Rhisiart

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd yr ymddiheuriadau.

2. **Cofnodion cyfarfod 20 Hydref 2025**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. Nodwyd nad oes materion yn codi nad ydynt eisoes ar y rhaglen heddiw.

3. **Cadarnhad bod yr Awdurdod wedi ymgynghori (gan gynnwys adrodd ar yr ymgynghoriadau)**

Mae adroddiad eisoes wedi cael ei rannu sy'n amlygu trefniadau'r Awdurdod wrth ymgynghori ar fynediad i ysgol. Mae rhai ymatebion wedi dod yn sgil yr ymgynghoriad diwethaf a bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth iddynt cyn symud ymlaen. Os oes gwrthwynebiad i'r trefniadau newydd yn dilyn hynny yna bydd angen gwrthwynebu drwy gysylltu gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.
Nododd CO o ran trefniadau ymgynghori'r Eglwys ar yr Ysgolion Catholig eu bod yn fodlon ffitio mewn gyda phrosesau'r Awdurdod, ond bod angen i rieni gwblhau ffurflen ychwanegol yn amlygu ffydd y plentyn/plant. Byddai modd gwneud hyn drwy roi dolen o wefan yr Awdurdod i wefan yr Ysgol fel bod ganddynt fynediad at yr holl wybodaeth ynghylch yr ysgol. Cytunwyd byddai'n fuddiol cydweithio'n dynnach wrth ymgynghori wrth symud ymlaen.
Nodwyd o ran camau nesaf, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac yn pennu'r trefniadau erbyn 15 Ebrill 2026. Yn dilyn hynny, bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r holl ymgynghorai o fewn 14 diwrnod wedi hynny.

4. **Cyflwyno drafft cyntaf ar gyfer Blwyddyn 7**

Nododd ODH bod dyddiad cau ar gyfer mynediad i Ysgol Uwchradd wedi bod. Mae 100% o blant wedi cael eu dewis cyntaf yng Ngwynedd – dros 1100 o geisiadau. Mae'r rhain i gyd wedi cael llythyr yn cadarnhau eu dewis. Yn dilyn hynny, mae ambell gais hwyr wedi dod neu rhai wedi newid eu meddyliau ac ati ac mae llythyrau cynnig llefydd wedi mynd allan iddyn nhw hefyd. Rhagwelir y bydd rhagor o lythyrau cynnig yn mynd allan wythnos yma yn sgil ceisiadau hwyr mae'r Awdurdod wedi ei dderbyn. Nodwyd bod oddeutu 55 o geisiadau sydd heb gyrraedd eto, sydd rhywfaint yn uwch na'r llynedd. Mae mwyafrif y plant yma o ddwy ysgol Gynradd a bydd angen atgoffa'r Penaethiaid yma eto i atgoffa'r rhieni i lenwi ffurflen gais. **Gofynnodd AH i ODH adael iddi wybod pa ysgolion ydi'r rhain er mwyn i'r Swyddog Cefnogi gael atgoffa'r Pennaeth hefyd.**
Nododd DAWJ mewn un ystyr bod hi'n newyddion da bod yr Awdurdod yn gallu cynnig dewis cyntaf pob plentyn iddynt, ond wrth gwrs mae hyn yn adlewyrchiad o'r gostyngiad yn niferoedd disgyblion ac effaith demograffi. Dyma fydd y patrwm am nifer o flynyddoedd rŵan mae'n debyg. Mae'n creu pryder o ran hyfywedd ac effaith gyllidol ar ysgolion yn sgil llai o blant yn gyffredinol.

5. **Addysg Ddewisol Gartref**

Nodwyd bod yr adroddiad sydd wedi ei llunio gan Ellen Rowlands eisoes wedi ei chyflwyno.
Nododd DAWJ bod yr Awdurdod yn rhoi sylw parhaus i'r maes yma - mae'n cael ei fonitro drwy drefniadau Herio Perfformiad yr Adran ac ati. Mae'r nifer sy'n derbyn Addysg Gartref yn bryderus, ond mae'n adlewyrchu sefyllfa Genedlaethol hefyd.
Ategodd RhPJ y pryder yma o safbwynt ysgolion hefyd. Nododd bod pryder bod rhieni yn dad gofrestru plant os ydi ysgol yn codi cwestiwn am eu presenoldeb, neu os ydi'r plentyn cael eu rhoi o dan unrhyw fath o bwysau yn academaidd ym mlwyddyn 10 ac 11. Yn hytrach na

chefnogi plant, mae rhieni yn dewis eu dadgofrestru. Mae hyn yn cynyddu'r pryder wedyn am beth yw safon yr addysg maent yn cael gartref. Mynegodd RhPJ bryder nad ydi Profiad Gwaith Estynedig ar gael fel ag yr oedd o. Tydi cwmnïau lleol ddim yn fodlon derbyn disgyblion 15 ac 16 oed ar brofiad gwaith. Mae hyn yn golygu bod plant yn dod i'r ysgol a methu ymdopi gyda'r gwaith, neu yn aros adref a ddim yn ymgysylltu o gwbl. Byddai cael pecyn o gwmpas plentyn i gynnig profiadau all gyrsiol neu'r byd gwaith yn gwneud gwahaniaeth o ran cadw plant yn yr ysgol,  a darparu amserlen amgen ar eu cyfer. Mae rhai yn dechrau cael addysg gartref ac yna'n dod yn ôl i'r ysgol – mae'r tor mewn addysg yn cael effaith hefyd. Cytunwyd byddai sgwrs yn y Cyfarfod Strategol Penaethiaid Uwchradd yn fuddiol i drafod y maes yma.

6. **Adrodd ar fynediad ar Grwpiau Bregus/ADY/Anghenion Meddygol**

Nodwyd bod adroddiad eisoes wedi cael ei rannu. Nododd ET o ran CDU, bod hi'n anodd casglu tystiolaeth ar gyfer plant sydd gydag anghenion ond heb CDU. Yn ogystal â hynny, mae tribiwnlysoedd yn cyfeirio achosion yn ôl os nad oes tystiolaeth feddygol gan arbenigwr. Tydi llythyr gan feddyg teulu ddim yn ddigon, mae'n rhaid cael llythyr gan arbenigwr yn y maes e.e. nyrs clefyd siwgr.

Cafwyd trafodaeth ynghylch faint o anodd ydi derbyn plant i ysgol gydag anghenion heb unrhyw wybodaeth gefndirol. Mae'n anodd iawn cefnogi'r plant yma. Cytunwyd gyda hynny. Nododd ET gyda'r Ddeddf ADY newydd does dim amser i greu CDU a dod i adnabod y plentyn fel oedd bosib gwneud o'r blaen, mae'n rhaid gweithredu yn unol â'r Ddeddf newydd. Nodwyd hefyd yn nalgylch Bangor bod achosion wedi bod lle nad oedd yna adnabyddiaeth gynnar o anghenion plant yn y blynyddoedd cynnar drwy Ymwelydd Iechyd ac ati. Mae plant wedi bod yn cyrraedd dosbarth Meithrin heb CDU ac maent wir angen un. Nododd ET ei bod yn ymwybodol o'r pryder yma yn nalgylch Bangor yn Medi 2024. Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda'r DECLO ac mae hyfforddiant gan y DECLO a Betsi Cadwaladr i bawb sy'n ymwneud â phlant yn eu blynyddoedd cynnar i wybod sut i gyfeirio plentyn ac agor ymholiad er mwyn dechrau CDU. Gofynnwyd i Benaethiaid adael i ET wybod os ydi'r pryderon yn parhau.

Gofynnwyd i ysgolion drafod achosion unigol gyda'r Swyddog Ansawdd. Yng nghyd-destun mynediad i ysgolion, mae gan yr Awdurdod drefniadau cadarn mewn lle ynghyd a'r drefn ADY. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod pa mor heriol ydi'r sefyllfa ar Ysgolion.

Nododd RhPJ pan mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol o'r Cynradd a hefo anghenion rhaid canmol y gefnogaeth sydd ar gael wrth i blentyn bontio o'r Cynradd i'r Uwchradd - mae systemau cadarn mewn lle.

7. **Ffurflen Mynediad Ysgolion**

Nodwyd bod yr eitem yma'n deillio o'r cyfarfod diwethaf, a'r posibilrwydd o ddiwygio rhywfaint ar y ffurflen fel bod mwy o wybodaeth ar gael ynghylch trosglwyddiad y plentyn – fel bod yr ysgol sy'n derbyn y plentyn yn gallu cefnogi fel sydd ei angen. Nododd DAWJ bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Uned Gyfreithiol, ond yn anffodus does dim modd gofyn cwestiynau ychwanegol fel rhan o'r broses Mynediad, gan nad ydynt yn berthnasol i'r meini prawf dyrannu lle mewn ysgol. Gallai holi am wybodaeth negyddol am ddisgybl greu darlun o ragfarn, a byddai ystyriaethau o ran casglu data a gwarchod data yn faterion allweddol hefyd.  Cynhaliwyd trafodaeth bellach ar hyn yn y Grŵp Penaethiaid Strategol uwchradd (GCSU), ac er nad oes arweiniad cadarn a chlir yn y Cod Mynediad i Ysgol, cytunodd yr Awdurdod yn sgil y drafodaeth i geisio sefydlu Panel Disgyblion Anodd eu Lleoli. Mae paneli o'r fath eisoes yn bodoli mewn rhai siroedd, ond mae'r canllawiau a'r meini prawf yn weddol amwys, felly bydd yr Awdurdod yn gweithio ar gylch gorchwyl, meini prawf ac aelodaeth y Panel hwn rhwng nawr a diwedd Tymor yr Haf, er sicrhau fod y Panel yn weithredol erbyn mis Medi 2026.  Bydd yr Awdurdod yn rhannu'r dogfennau drafft cysylltiedig gyda'r Fforwm Mynediad am sylwadau cyn i'r Panel ddod yn weithredol.

Nododd RhPJ ei diolch am hyn. Byddai hwyluso trafodaethau rhwng ysgolion yn sicr yn gymorth i gefnogi plant gymaint â phosib wrth iddynt drosglwyddo.